Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

This document is also available in English | Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

# Cyfarwyddyd cyfrifon i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ar gyfer 2025/26

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 03 Mehefin 2026 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2026/21 |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru<br>Brif swyddogion cyllid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru |
| **Ymateb erbyn:** | 30 Tachwedd 2026 [is-gyrff perthnasol 31 Rhagfyr 2026] |
| **Rhagor o wybodaeth:** | sicrwydd@medr.cymru |


**Crynodeb:**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn darparu gwybodaeth am ofynion Medr ynghylch fformat datganiadau ariannol archwiliedig sefydliadau addysg uwch Cymru.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg ac yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cynnwys


Cynnwys ..... 1
Cyflwyniad ..... 1
Newidiadau o gyfarwyddyd cyfrifon 2024/25 ..... 1
Cyfarwyddyd cyfrifon ar gyfer 2025/26 ..... 1
Busnes gweithredol a risg hylifedd ..... 3
Adrodd ar gynaliadwyedd ..... 3
Adrodd ar faterion amgylcheddol ..... 3
Llywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol ..... 3
Datgeliadau partïon cysylltiedig ..... 4
Tâl staff ar gyflog uwch ..... 5
Deddf Elusennau 2011 ..... 5
Dyddiad cyflwyno datganiadau ariannol archwiliedig i Medr ..... 5
Rhagor o wybodaeth ..... 6
Atodiad A - Tâl penaethiaid sefydliadau a staff ar gyflog uwch ..... 7
Pennaeth y Sefydliad ..... 7
Staff ar gyflogau uwch ac aelodau uwch o staff ..... 9
Personél Rheoli Allweddol ..... 9
Taliadau diswyddo ..... 9
Aelodau'r Cyngor ..... 10
Atodiad B - Iawndal am golli swydd ..... 11
Gofynion datgelu: ..... 11
Atodiad C- Llywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol ..... 12
Materion rheolaeth fewnol sylweddol ..... 13
Atodiad D- Canllawiau pellach ar gyfrifo datgeliad cyflog pennaeth sefydliad ac uwch swyddogion ..... 16
Atodiad E – Byrfoddau ..... 18

## Cyflwyniad

1. Diben y cyfarwyddyd cyfrifon hwn yw hysbysu sefydliadau am ofynion Medr ynghylch fformat eu datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer y flwyddyn 2025/26.

2. Mae sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn dal i fod yn ddarostyngedig i fframwaith cod rheoli ariannol (CRhA) CCAUC (Cylchlythyr CCAUC W17/16HE) nes i fframwaith rheoleiddio Medr ei hun ddod i rym ar 1 Awst 2026.

## Newidiadau o gyfarwyddyd cyfrifon 2024/25

3. Cyflwynwyd y diwygiadau canlynol i'r dogfen hon ers y fersiwn derfynol ar gyfer 2024/25:
   a. Mân newidiadau i'r naratif / teipograffeg a diweddaru dolenni'r rhyngrwyd.

## Cyfarwyddyd cyfrifon ar gyfer 2025/26

4. Mae'n ofynnol i sefydliadau addysg uwch ddilyn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch 2019 (FEHE SORP), neu unrhyw ddogfennau sy'n olynu'r SORP[1] hwn, wrth lunio'u datganiadau ariannol. Gellir cael hyd i ddolenni i'r FEHE SORP a chanllawiau ar weithredu rhai meysydd yn yr adran SORP ar wefan Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain (BUFDG). Os oes unrhyw anghysondebau rhwng gofynion y FEHE SORP a'r cyfarwyddyd cyfrifon hwn, y cyfarwyddyd cyfrifon hwn fydd yn drech.

5. Fel y nodwyd yn y SORP, rhaid i sefydliadau gymhwyso'r holl ofynion o dan FRS 102: y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

6. Yn achos sefydliad sydd hefyd yn gwmni cyfyngedig drwy warant, mae'r cyfarwyddyd hwn yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Cwmnïau 2006.

7. Bydd y datganiadau ariannol yn cael eu llofnodi gan y Swyddog Atebol a chan y Cadeirydd neu un aelod arall o'r corff llywodraethu a benodir gan y corff hwnnw.

8. Dylai sefydliadau nodi y dylid dilyn fformatau'r prif ddatganiadau cyfrifyddu (datganiad cyfunol o incwm a gwariant cynhwysfawr, datganiad cyfunol o newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn, mantolen, a datganiad llif arian cyfunol). Dylai'r datganiadau ariannol ddilyn datganiadau ariannol enghreifftiol diweddaraf BUFDG lle bo modd, i hyrwyddo cysondeb o ran ymdriniaeth o fewn y sector, gan roi sylw digonol i amrywiaeth sefydliadau, a'r angen am eglurder wrth gyflwyno'r wybodaeth i ddefnyddwyr. Gellir cael hyd i'r model yn adran SORP ar wefan BUFDG.

9. Wrth i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) symud i ddarparu data agored, mae defnyddwyr trydydd parti yn gynyddol yn echdynnu data am sefydliadau a'r sector o'r ffynhonnell hon er mwyn cymharu a gwneud sylwadau yn hytrach nag o'r datganiadau ariannol cyhoeddedig. Byddem felly'n disgwyl i Sefydliadau roi sylw digonol i ddiffiniadau a chanllawiau HESA wrth gategoreiddio o fewn y datganiadau ariannol, er mwyn sicrhau bod y datganiadau ariannol, fel y cawsant eu cymeradwyo

[1] Mae SORP 2026 mewn grym ar gyfer cyfnodau ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2026.

gan y corff llywodraethu, yn cyd-fynd â'r cofnod cyllid a gyflwynwyd i HESA wedi hynny.

10. Mae cysondeb rhwng cofnod cyllid HESA a datganiadau ariannol cyhoeddedig yn hyrwyddo cymhariaeth well rhwng sefydliadau a chysondeb y data a ddefnyddir i ddadansoddi sectorau'r DU.

11. Dylai'r nodiadau i'r cyfrifon gynnwys dadansoddiadau o incwm a gwariant ac eitemau ar y fantolen sy'n gyson ag arfer cyfrifyddu da cydnabyddedig, a dylent fod yn ddigon manwl fel bod defnyddwyr yn gallu cael dealltwriaeth glir o berfformiad ariannol y sefydliad.

12. Os yw'r cyfrifon yn cynnwys eitemau incwm neu wariant sylweddol nad ydynt yn debygol o ddigwydd eto ac/neu nad ydynt yn adlewyrchu'r perfformiad ariannol sylfaenol, dylid rhoi esboniad am hynny.

13. Dylai'r datganiadau ariannol gydymffurfio ymhellach ag unrhyw ofynion perthnasol yn Neddf Elusennau 2011 i'r graddau y mae'r Ddeddf honno'n berthnasol i sefydliad.

14. Dylai sefydliadau hefyd:

    a. Sicrhau bod contractau ar gyfer archwilio allanol yn nodi bod yn rhaid i'r archwilydd allanol gynnwys adroddiad i'r corff llywodraethu yn y datganiadau ariannol ynghylch a yw'r canlynol yn wir, ym mhob ffordd berthnasol:

        i. bod y datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y sefydliad addysg uwch, ac o'i incwm a'i wariant, ei enillion a'i golledion, newidiadau i'w gronfeydd wrth gefn a'i lifoedd arian am y flwyddyn. Dylent roi ystyriaeth i ofynion statudol perthnasol, ac i ofynion datgelu a chyfrifyddu gorfodol eraill, ac i ofynion Medr;

        ii. bod y datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU, sef y safon adrodd ariannol (FRS102), y datganiad o'r arfer a argymhellir: cyfrifyddu ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch (FEHE SORP), a deddfwriaeth berthnasol;

        iii. bod arian o ba bynnag ffynhonnell a weinyddir gan y sefydliad addysg uwch i ddibenion penodol wedi'i gymhwyso'n briodol i'r dibenion hynny a'i reoli yn unol â deddfwriaeth berthnasol;

        iv. bod y sefydliad wedi defnyddio incwm, lle bo'n briodol, yn unol â pharagraff 145 y Cod Rheoli Ariannol (CRhA) (HEFCW W17/16HE) ac a yw grantiau Cynghorau Cyllido (gan gynnwys grantiau gan Medr) wedi'u cymhwyso'n unol â'r telerau ac amodau cysylltiedig, a'u defnyddio i'r dibenion y'u derbyniwyd ar eu cyfer, gan gynnwys y Telerau ac Amodau Cyllido; a

        v. bod gofynion cyfarwyddyd cyfrifon Medr wedi'u bodloni.

    b. Darparu dadansoddiad a datgeliad manwl o fewn y datganiadau ariannol o ffioedd archwilio a ffioedd eraill a delir i archwilwyr allanol, yn unol ag Offeryn Statudol SI 2008 Rhif 489 - *Rheoliadau Cwmnïau (Datgelu Tâl Archwilwyr a Chytundebau Cyfyngu Atebolrwydd) 2008* a'r Diwygiadau i'r Rheoliadau hyn sydd wedi'u cynnwys yn *Offeryn Statudol OS 2011 Rhif 2198*. Mae hyn yn

ofynnol ar gyfer y sefydliadau hynny y mae cyfraith cwmnïau yn berthnasol iddynt. Gellir gweld yr Offeryn Statudol ar *Wefan Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus* (www.legislation.gov.uk).

c. Yn eu hadroddiadau neu eu llythyrau at reolwyr, dylai archwilwyr roi sylw digonol i ofynion penodol Medr, fel cydymffurfio â chodiadau i drothwyon ymrwymiadau ariannol, neu agweddau eraill ar ddiffyg cydymffurfio.

## Busnes gweithredol a risg hylifedd

15. Rhaid i aelodau’r corff llywodraethu gadarnhau yn yr adroddiad blynyddol fod y datganiadau ariannol wedi’u paratoi ar sail busnes gweithredol. Rhaid iddynt hefyd gadarnhau eu bod wedi cynnal asesiad cadarn o'r prif risgiau a'r ansicrwydd perthnasol sy'n wynebu'r sefydliad, gan gynnwys y rhai a fyddai'n bygwth ei fodel busnes, ei berfformiad yn y dyfodol, ei solfedd neu ei hylifedd. Rhaid i'r adroddiad ddisgrifio'r risgiau hynny ac egluro sut maen nhw'n cael eu rheoli neu eu lliniaru.

## Adrodd ar gynaliadwyedd

16. Disgwylir i adran y datganiadau ariannol sy'n adrodd ar agweddau gweithredol ac ariannol esbonio sut mae'r sefydliad yn sicrhau ei gynaliadwyedd, gan gynnwys drwy ei strategaeth, ansawdd ei addysgu a'i ymchwil, metrigau cynaliadwyedd ariannol, rheolaeth ar risgiau allweddol gan gynnwys rheoli llif arian, ymrwymiadau ariannol a gynigir a phrydlesoedd perthnasol, a buddsoddiadau mewn ystadau a seilwaith. Dylai sefydliadau gyflwyno'r wybodaeth hon drwy ddefnyddio'r fformat y cytunwyd arno ar gyfer templed yr adroddiad llywodraethu blynyddol a grëwyd yn dilyn yr Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Prifysgolion yng Nghymru.

17. Byddem yn disgwyl i strategaeth y sefydliad fod yn glir ac yn gyson â dogfennau eraill cyhoeddedig.

## Adrodd ar faterion amgylcheddol

18. Rhaid i sefydliadau gynnwys sylwadau ar y camau a gymerwyd ac a gynlluniwyd i sicrhau bod adnoddau cymdeithasol ac amgylcheddol yn gynaliadwy ar raddfa ehangach. Dylai hyn gynnwys datganiad o darged sero net y sefydliad, ymhlith agweddau eraill (lle bo hynny wedi'i ddatgan yn gyhoeddus) a'r cynnydd tuag at gyflawni hyn. Gallai agweddau i'w hystyried gynnwys gwella effeithlonrwydd ystadau, y defnydd o ynni, lleihau gwastraff hyd yr eithaf, effeithlonrwydd adnoddau, defnydd o ddŵr, caffael, bioamrywiaeth, teithio a lleihau effeithiau amgylcheddol eraill. Cyfeirir Canllawiau Llywodraeth Cymru i sylw sefydliadau ynghylch y maes hwn, sy'n nodi'r hyn i'w flaenoriaethu ar sail dosbarthu fel allyriadau uniongyrchol (cwmpas 1), allyriadau anuniongyrchol (cwmpas 2 a 3) a Defnydd o Dir, Newid y Defnydd o Dir a Choedwigaeth. Ceir canllawiau pellach yn y Fframwaith Allyriadau Carbon Safonol (SCEF) a'r Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â'r Hinsawdd.

## Llywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol

19. Rhaid i sefydliadau gynnwys 'datganiad llywodraethu corfforaethol' yn eu datganiadau ariannol. Rhaid i'r datganiad hwn roi disgrifiad o drefniadau llywodraethu corfforaethol y sefydliad a datganiad o gyfrifoldebau'r corff llywodraethu. Rhaid iddo

ymwneud yn benodol â'r cyfnod a drafodir yn y datganiadau ariannol, a'r cyfnod hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol archwiliedig.

20. Rhaid i sefydliadau gynnwys 'datganiad rheolaeth fewnol' yn y datganiadau ariannol. Mae'r datganiad rheolaeth fewnol yn ymwneud â threfniadau'r sefydliad ar gyfer atal a chanfod llygredd, twyll, llwgrwobrwyo ac anghysondebau eraill. Rhaid iddo gynnwys esboniad o'r modd y cafodd egwyddorion rheolaeth fewnol eu cymhwyso.

21. Gall sefydliadau gyfuno'r datganiad llywodraethu corfforaethol â'r datganiad rheolaeth fewnol, yn amodol ar wneud yr holl ddatgeliadau gofynnol. Wrth lunio eu datganiadau, dylai sefydliadau gyfeirio at ganllawiau arfer gorau, gan gynnwys canllawiau gan Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain (BUFDG). Mae canllawiau pellach ar y gofynion hyn wedi'u cynnwys yn Atodiad C.

22. Mae Cod Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol (Cod y CUC[2]), a gafodd ei ailwampio a'i ailgyhoeddi yn 2020, yn argymell y dylai sefydliadau gynnwys yn eu datganiadau ariannol archwiliedig ddatganiad sy'n esbonio'r trefniadau llywodraethu ac yn cadarnhau y rhoddwyd sylw i God y CUC wrth fabwysiadu'r trefniadau hyn. Dylai'r datganiadau ariannol gynnwys datganiad penodol naill ai i gadarnhau bod y sefydliad wedi cydymffurfio â holl egwyddorion y Cod neu, lle ceir eithriadau, i esbonio sut yr ymdrinnir â'r rhain, gan gynnwys llinellau amser.

23. Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys datganiad penodol bod y sefydliad wedi mabwysiadu'r Siarter Llywodraethu ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru (y Siarter Llywodraethu) yn seiliedig ar yr Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Prifysgolion yng Nghymru gan Gillian Camm.

24. Rhaid i'r adroddiad blynyddol ddefnyddio'r templed adroddiad llywodraethu blynyddol a ddatblygwyd mewn ymateb i adolygiad Camm fel canllaw ar gyfer strwythur yr adroddiad blynyddol.

25. Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys datganiad ar gydymffurfiaeth y sefydliad ag adolygiad Camm Ymrwymiad i Weithredu, gan gynnwys cynnydd tuag at weithredu argymhellion yr adolygiad yn llawn, lle na lwyddwyd i wneud hynny eisoes.

## Datgeliadau partïon cysylltiedig

26. Atgoffir sefydliadau o'r gofynion datgelu ar gyfer trafodion partïon cysylltiedig. Rhaid datgelu trafodion o'r fath sy'n cynnwys ymddiriedolwyr, p'un a ydynt yn cael eu cynnal ar sail hyd braich ai peidio, ynghyd ag enw(au) y parti neu'r partïon cysylltiedig sy'n gwneud y trafodion. Dylai'r datgeliad hefyd gynnwys disgrifiad o'r berthynas rhwng y partïon (gan gynnwys buddiant y parti neu'r partïon cysylltiedig yn y trafodiad, disgrifiad o'r trafodiad, a'r symiau dan sylw).
27. Rhaid i sefydliadau ddatgelu rhestr o ymddiriedolwyr sy'n dal swydd yn ystod y flwyddyn ynghyd â manylion penodiadau ac ymddiswyddiadau hyd at y dyddiad llofnodi.

[2] Fersiwn ddiwygiedig 2020 ar adeg cyhoeddi – mae fersiwn ddiwygiedig 2026 ar ffurf dogfen ddrafft

## Tâl staff ar gyflog uwch

28. Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru i fod yn agored a thryloyw, mae'n ofynnol i sefydliadau ddatgelu'r canlynol:

    a. cyfanswm tâl gwirioneddol pennaeth y sefydliad;

    b. tâl sylfaenol a chyfanswm tâl pennaeth y sefydliad, wedi'i gyflwyno ar ffurf cymhareb o gyflogau sylfaenol a chyfanswm cyflogau amser llawn staff;

    c. cyfiawnhad dros dâl pennaeth y sefydliad;

    d. tâl aelodau o staff sy'n derbyn cyflog uwch mewn bandiau o £5,000 gan ddefnyddio £100,000 fel man cychwyn;

    e. cyfanswm y tâl i bersonél rheoli allweddol, ynghyd â naill ai nifer y personél rheoli allweddol neu restr o swyddi cymwys; a

    f. manylion unrhyw iawndal a dalwyd neu sy'n daladwy i bennaeth y sefydliad ac i staff y mae eu tâl blynyddol yn fwy na £100,000, neu ddatganiad yn cadarnhau nad oedd unrhyw iawndal yn daladwy i staff ar y lefel hon yn ystod y flwyddyn.

    Anogir sefydliadau i roi sylw arbennig i'r gofynion datgelu ar gyfer staff â chyflog uwch fel y manylir uchod, yn enwedig o ran y diffiniad o 'dâl' a'r dadansoddiad o gyflog, buddion mewn nwyddau a chyfraniadau pensiwn y cyflogwr. Ceir manylion pellach am y gofynion yn Atodiad A am dâl ac Atodiad B am iawndal.

## Deddf Elusennau 2011

29. Cynghorir sefydliadau, o dan Ddeddf Elusennau 2011 y dylid cynnwys yr wybodaeth ganlynol yn eu datganiadau ariannol archwiliedig a'r adroddiadau cysylltiedig:

    a. statws elusennol y sefydliad;

    b. yr ymddiriedolwyr a wasanaethodd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ariannol a hyd at y dyddiad y cymeradwywyd y datganiadau ariannol yn ffurfiol;

    c. datganiad bod yr elusen wedi rhoi sylw i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd y cyhoedd;

    d. adroddiad sy'n egluro sut mae'r sefydliad wedi cyflawni ei ddibenion elusennol er budd y cyhoedd; a

    e. gwybodaeth am daliadau i ymddiriedolwyr neu ar eu rhan, gan gynnwys treuliau; taliadau i ymddiriedolwyr am wasanaethu fel ymddiriedolwyr (a thaliadau o'r fath sydd wedi'u hepgor); trafodion partïon cysylltiedig sy'n cynnwys ymddiriedolwyr.

## Dyddiad cyflwyno datganiadau ariannol archwiliedig i Medr

30. Dylid paratoi'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol fel eu bod y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Gorffennaf.

31. Dyma'r dyddiadau cau terfynol ar gyfer cyflwyno datganiadau ariannol archwiliedig i Medr a'u cyhoeddi:

| | Dyddiad cau |
|---|---|
| Datganiadau ariannol archwiliedig | 30 Tachwedd 2026 |
| Cyhoeddi ar y wefan | 31 Ionawr 2027 |
| Datganiadau ariannol is-gyrff archwiliedig | 31 Rhagfyr 2026 |

32. Os daw sefydliad yn ymwybodol na fydd y gofynion uchod wedi'u cyflawni erbyn y dyddiadau cau, bydd Medr yn disgwyl cael gwybod am yr oedi a'r rhesymau am hynny ymlaen llaw, ynghyd â llinell amser ddisgwyliedig, a diweddariad rheolaidd.

33. Os bydd hi'n amlwg bod datganiadau ariannol is-gorff yn amherthnasol i farn archwilio'r grŵp, gellir defnyddio dyddiad cau arferol Tŷ'r Cwmnïau (30 Ebrill) neu'r Comisiwn Elusennau (31 Mai). Rhaid i sefydliadau a'u harchwilwyr hysbysu Medr yn ysgrifenedig cyn 31 Rhagfyr 2026 gan gadarnhau na fydd yr is-gorff/is-gyrff a enwir yn effeithio ar farn archwilio'r grŵp yn unigol na chyda'i gilydd, a'u bod yn gallu defnyddio'r eithriad hwn. Nid yw'r eithriad hwn yn berthnasol i is-gyrff sy'n cyflawni gweithgareddau trydyddol a fyddai oddi mewn i gylch gwaith Medr.

34. Dylid cyflwyno datganiadau ariannol i sicrwydd@medr.cymru.

35. Adolygir y cyfarwyddyd cyfrifon yn flynyddol. Bydd y cyfarwyddyd cyfrifon yn parhau i fod mewn grym oni hysbysir sefydliadau fel arall.

36. Rydym yn argymell rhoi copi o'r cylchlythyr hwn a'i atodiadau gerbron eich Pwyllgorau Cyllid ac Archwilio er gwybodaeth.

### Rhagor o wybodaeth

37. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Diane Rowland (diane.rowland@medr.cymru).

## Atodiad A - Tâl penaethiaid sefydliadau a staff ar gyflog uwch

Wrth bennu tâl uwch swyddogion a thaliadau diswyddo, dylai sefydliadau sicrhau eu bod yn cadw at arferion da yn eu trefniadau llywodraethu ar gyfer pennu tâl priodol i uwch swyddogion. Mae hyn yn cynnwys rhoi sylw i God Tâl Aelodau Uwch o Staff AU CUC (Tachwedd 2021).

Mae'n ofynnol i sefydliadau ddatgelu'r canlynol:

**Pennaeth y Sefydliad**

1. Cyfanswm tâl gwirioneddol pennaeth y sefydliad, gan ddatgelu'r canlynol ar wahân:
   a. cyflog sylfaenol (gros cyn unrhyw gynllun aberthu cyflog);
   b. taliadau yn lle cyfraniadau pensiwn;
   c. talu difidendau (gan gynnwys difidendau a delir yn lle cyflog, ymhlith rhai eraill);
   d. bonysau sy'n gysylltiedig â pherfformiad a bonysau eraill a ddyfarnwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol, gan gynnwys unrhyw drefniadau talu gohiriedig a datgeliad ar wahân o symiau a hepgorwyd, y dylid eu datgelu ar wahân ynghyd ag unrhyw naratif gofynnol i gynyddu tryloywder. Dylid datgelu bonysau gohiriedig yn y flwyddyn y cânt eu dyfarnu a'r flwyddyn y'u telir, gyda nodiadau esboniadol fel bo'r angen i sicrhau eglurder i ddefnyddwyr. Yn unol â chamau Siarter Llywodraethu adolygiad Camm ar dâl uwch swyddogion gweithredol, dylid cynnwys manylion am ddyluniad y cynllun bonws a'r mesurau a fydd yn sbarduno taliad naill ai yn y nodyn ar dâl, neu yn adran berthnasol yr adroddiad blynyddol, a chroesgyfeirio hynny fel bo'n briodol;
   e. cyfraniadau pensiwn;
   f. trefniadau aberthu cyflog;
   g. iawndal am golli swydd;
   h. unrhyw symiau a delir o dan unrhyw gynllun pensiwn mewn perthynas â chyflogaeth â'r sefydliad;
   i. unrhyw symiau a delir fel lwfansau treuliau (i'r graddau y codir treth incwm y DU ar y symiau hynny);
   j. gwerth ariannol amcangyfrifedig unrhyw fuddion trethadwy eraill a dderbynnir. Rhaid i sefydliadau ddatgan natur pob un o'r buddion trethadwy a gwerth ariannol amcangyfrifedig pob un. Gall y rhain gynnwys ceir cwmni, benthyciadau â chymhorthdal gan gynnwys cymorthdaliadau morgais, a llety â chymhorthdal;
   k. buddion di-dreth. Rhaid i sefydliadau ddatgelu:
      - natur pob un o'r buddion di-dreth;
      - cost darparu pob un ohonynt i'r sefydliad;

   Y buddion di-dreth y mae'n rhaid eu datgelu yw'r rhai nad ydynt ond ar gael i aelodau uwch o staff neu sydd ar gael i bennaeth y sefydliad yn unig. Gall hyn gynnwys cyfraniadau at gostau adleoli, llety byw ac unrhyw fudd pendant arall y dylai'r sefydliad allu priodoli cost darparu'r budd iddo. Nid oes angen i sefydliadau ddatgelu buddion di-dreth sy'n deillio'n syml o fod yn aelod o staff y

sefydliad ac a roddir i bob aelod o staff, neu sydd ar gael iddynt o leiaf. Gweler y canllawiau pellach yn Atodiad D; a

l. Thâl arall. Rhaid i sefydliadau ddatgelu natur unrhyw fathau eraill o dâl a'r gost i'r sefydliad o ddarparu pob math o dâl. Gall y mathau o dâl gynnwys iawndal am golli buddion, taliadau ex-gratia a thâl ar gyfnod sabothol, a thaliadau a wneir i'r unigolyn am waith ymgynghori (drwy'r sefydliad), yn hytrach nag i'r sefydliad, am waith a gyflawnir drwy ddefnyddio adnoddau'r sefydliad. Dylai hyn hefyd gynnwys unrhyw daliadau nas datgelwyd yn flaenorol i bennaeth blaenorol y sefydliad, waeth pa wasanaethau y mae'r taliadau'n berthnasol iddynt.

Rhaid i'r sefydliad ddangos is-gyfanswm heb gynnwys cyfraniadau pensiwn a chyfanswm sy'n eu cynnwys. Dylid disgrifio trefniadau aberthu cyflog.

2. Cyfiawnhad dros gyfanswm y pecyn tâl i bennaeth y sefydliad. Rhaid i'r cyfiawnhad gynnwys cyfeiriad at y cyd-destun y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddo, a bod yn gysylltiedig â'r gwerth a'r perfformiad a gyflawnir gan bennaeth y sefydliad. Dylai gynnwys esboniad o'r broses a fabwysiadwyd ar gyfer barnu perfformiad yr unigolyn hwnnw. Dylai'r cyfiawnhad esbonio'r broses sydd ar waith a'r trefniadau goruchwylio sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau ynghylch taliadau a pham mae lefel y tâl a ddyfernir i Bennaeth y sefydliad yn gyfiawn. Dylai hyn ymgorffori targedau a/neu gyflawniadau pennaeth y sefydliad yn ystod y flwyddyn. Argymhellir bod sefydliadau'n defnyddio'r canllawiau o fewn Cod tâl aelodau uwch o staff CUC (Tachwedd 2021).

3. Mae'n ofynnol cyfleu tâl pennaeth y sefydliad ar ffurf dwy gymhareb cyflog:

   a. cyflog sylfaenol fel cymhareb o ganolrif cyflog sylfaenol yr holl staff (wedi'i gyfleu ar sail CALI) Dyma'r cyflog sylfaenol cyn unrhyw addasiad ar gyfer aberthu cyflog, lle bo'n berthnasol. Dylai staff gynnwys yr holl unigolion y mae'n ofynnol eu cynnwys mewn adroddiadau amser real i CThEF; a

   b. chyfanswm y tâl fel cymhareb o gyfanswm tâl canolrifol yr holl staff (wedi'i gyfleu ar sail CALI). Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys holl elfennau tâl, gan gynnwys taliadau atodol y farchnad, bonysau a lwfansau cyfrifoldeb. Dylai staff gynnwys yr holl unigolion y mae'n ofynnol eu cynnwys mewn adroddiadau amser real i CThEF.

Os yw pennaeth y sefydliad wedi bod yn y swydd am ran o'r flwyddyn yn unig, dylid defnyddio swm cyfwerth ag amser llawn blwyddyn lawn ar gyfer y cymarebau, a chyfleu cymhareb cyflog ar wahân ar gyfer pob pennaeth sefydliad sydd wedi bod yn y swydd yn ystod y flwyddyn.

Darperir canllawiau pellach ar gyfrifo'r canolrifau hyn yn Atodiad D.

4. Pan fo newid ym mhennaeth y sefydliad (gan gynnwys penodi pennaeth dros dro) naill ai rhwng y naill flwyddyn a'r llall neu yn ystod blwyddyn, rhaid i sefydliadau wneud y datgeliadau a nodir ar wahân ar gyfer pob unigolyn, a darparu dyddiadau cychwyn a gorffen penodiadau ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r flwyddyn ariannol flaenorol. Pan fydd cyn-bennaeth sefydliad yn parhau i dderbyn tâl mewn rôl gyflogedig neu ymgynghorol ar ôl rhoi'r gorau i fod yn bennaeth y sefydliad, e.e. mewn rôl gynghori neu sabothol, dylid cynnwys hyn yn y cyfanswm gydag esboniad.

### Staff ar gyflogau uwch ac aelodau uwch o staff

5. Mae nifer y staff ar gyflog uwch a enillodd dâl yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys buddion mewn da sy'n drethadwy, ond heb gynnwys iawndal am golli swydd a chostau pensiwn y cyflogwr) yn cael eu cynnwys mewn bandiau o £5,000, gan ddefnyddio £100,000 fel man cychwyn. Yn benodol:

   a. dylid eithrio pennaeth y sefydliad yn benodol o'r tabl hwn;

   b. dylid datgelu'r bandiau gan gynnwys taliadau a ariennir o ffynonellau allanol, gan gynnwys y GIG mewn enillion. Rhaid i'r naratif nodi'n glir pa ffynonellau ariannu eraill sydd wedi'u cynnwys;

   c. nid yw breindaliadau na thaliadau eraill sydd y tu hwnt i faterion y sefydliad yn cyfrif fel enillion i'r diben hwn;

   d. dylid datgelu tâl yn gyfan gwbl heb gynnwys unrhyw drefniadau aberthu cyflog. Mae'r datgeliad hwn yn ychwanegol at yr hyn sy'n ofynnol yn FRS 102;

   e. nid oes angen datgeliad ar gyfer staff a ymunodd neu a adawodd hanner ffordd drwy flwyddyn ond a fyddai wedi derbyn enillion yn y bandiau hyn mewn blwyddyn lawn; a

   f. dylid datgelu cyfanswm y staff ar gyflog uwch.

   I rwyddhau cymhariaeth â'r sector yn Lloegr, gall sefydliadau hefyd ddewis datgelu'r tabl hwn yn seiliedig ar gyflog sylfaenol cyfwerth ag amser llawn, a chan hepgor y GIG neu unrhyw gyllid rhannol arall.

### Personél Rheoli Allweddol

6. Dylai datgeliadau o dâl yr unigolion hynny a nodir yn bersonél rheoli allweddol gynnwys:

   a. cyfanswm y tâl yn ei grynswth; a

   b. nifer yr unigolion a ddosbarthwyd yn bersonél rheoli allweddol, neu restr naratif o deitlau'r swyddi sy'n ddigonol i gyfrifo nifer yr unigolion a ddosbarthwyd felly.

7. Ym mharagraff 25.8 o'r FEHE SORP mae'n ofynnol i sefydliadau ddatgelu cyfanswm y tâl i bersonél rheoli allweddol. Mae FRS 102 yn diffinio personél rheoli allweddol fel “y bobl hynny sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb dros gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau’r endid, yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, gan gynnwys unrhyw gyfarwyddwr (boed yn weithredol neu fel arall) i’r endid hwnnw”. Mae iawndal yn cynnwys pob math o ystyriaeth a dalwyd, sy'n daladwy neu a ddarparwyd gan y sefydliad neu ar ei ran yn gyfnewid am wasanaethau i'r sefydliad. Mae'n ofynnol i sefydliadau ddatgelu'r wybodaeth hon yn ei chrynswth, yn hytrach nag ar lefel unigol. Dylid adrodd y datgeliad yn ei grynswth, gan gynnwys unrhyw drefniadau aberthu cyflog.

### Taliadau diswyddo

8. Cyfanswm unrhyw iawndal a delir i unrhyw bennaeth sefydliad a gweithiwr ar gyflog uwch am golli swydd (gweler Atodiad B) a nifer y cyflogeion sydd wedi cael iawndal o'r fath.

Darperir canllawiau pellach ar gyfrifo a datgelu yn Atodiad D.

## Aelodau'r Cyngor

9. Dylai sefydliadau ddatgelu tâl, treuliau a ad-dalwyd ac unrhyw drafodion ag aelodau o'u cyrff llywodraethu neu eu partïon cysylltiedig, p'un a yw trafodion yn cael eu cynnal ar sail hyd braich ai peidio.

## Atodiad B - Iawndal am golli swydd

1. Rhaid i sefydliadau roi sylw i Ganllawiau ar benderfyniadau a wneir ynghylch taliadau diswyddo mewn sefydliadau a gyhoeddwyd gan y CUC ym mis Mehefin 2018.

**Gofynion datgelu:**

2. Mae'r gofynion datgelu wedi'u manylu isod ac maent yn ymwneud â phob pennaeth sefydliad ac unrhyw weithiwr ar gyflog uwch y mae ei dâl yn uwch na £100,000 yn y flwyddyn adrodd a/neu yn y flwyddyn yn union cyn y flwyddyn adrodd.

3. Dylai'r iawndal a ddatgelir gynnwys unrhyw fuddion a all gael eu derbyn ac eithrio arian parod.

4. Rhaid i sefydliadau ddangos swm unrhyw iawndal am golli swydd a dalwyd neu sy'n daladwy i bennaeth y sefydliad. Lle bo hyn yn cynnwys buddion ar wahân i arian parod, dylid datgelu natur y buddion hyn.

5. Rhaid i sefydliadau ddangos swm unrhyw iawndal am golli swydd a dalwyd neu sy'n daladwy i staff sy'n ennill dros £100,000 y flwyddyn, a nifer y bobl yr oedd y swm yn daladwy iddynt.

6. Rhaid i'r swm a ddatgelir hefyd gynnwys a gwahaniaethu rhwng iawndal a dalwyd neu sy'n daladwy am y naill neu'r llall o'r canlynol:
    a. colli swydd fel pennaeth sefydliad neu aelod o staff sy'n ennill dros £100,000 y flwyddyn;
    b. colled, tra bo pennaeth sefydliad neu aelod o staff yn ennill dros £100,000 y flwyddyn, neu wrth i'r canlynol roi'r gorau i ddal swydd, neu'n gysylltiedig â hynny:
        i. Unrhyw swydd sy'n gysylltiedig â rheoli materion y sefydliad;
        ii. Unrhyw swydd fel pennaeth sefydliad neu staff sy'n ennill mwy na £100,000 y flwyddyn, neu sydd fel arall yn gysylltiedig â rheoli materion is-gwmni i'r sefydliad;

7. Bydd y swm yn gwahaniaethu rhwng iawndal mewn perthynas â swydd pennaeth sefydliad a staff sy'n ennill dros £100,000 y flwyddyn, boed yn y sefydliad neu yn unrhyw un o'i is-gyrff, a iawndal mewn perthynas â swyddi eraill.

8. Mae cyfeiriadau at iawndal yn cynnwys buddion heblaw arian parod, ac mae cyfeiriadau at swm yr iawndal hwnnw yn cyfeirio at werth ariannol amcangyfrifedig y budd. Rhaid datgelu natur y cyfryw iawndal yn fanwl. Rhaid i sefydliadau ddisgrifio ffynhonnell y cyllid ar gyfer unrhyw iawndal a ddyfernir.

9. Lle na thalwyd unrhyw iawndal wedi'i dalu i aelodau uwch o staff, dylid cynnwys datganiad i'r perwyl hwnnw.

## Atodiad C- Llywodraethu corfforaethol a rheolaeth fewnol

1. Mae'r Cod Llywodraethu Addysg Uwch yn argymell y dylai sefydliadau, yn eu datganiadau ariannol blynyddol archwiliedig, gynnwys datganiad sy'n esbonio trefniadau llywodraethu'r sefydliad ac sy'n cadarnhau y rhoddwyd ystyriaeth i God y CUC wrth fabwysiadu'r trefniadau hynny. Mae'r Cod wedi'i ailgyhoeddi yn nodi chwe elfen sylfaenol gydberthynol o lywodraethu AU sy'n ymgorffori gwerthoedd craidd, yn cynorthwyo i gyflawni amcanion ac yn darparu'r sail ar gyfer cyrff llywodraethu effeithiol sy'n gweithredu yn sector AU y DU. Mae'r Cod hefyd yn argymell mabwysiadu Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan. Er mwyn cydnabod ymreolaeth ac amrywiaeth y sector, nid yw'r Cod yn orfodol felly mae wedi'i seilio ar sail 'cymhwyso neu egluro'. Mae hyn yn golygu, er mwyn adrodd bod sefydliad wedi cymhwyso'r Cod, y gall corff llywodraethu ddewis pa rannau o'r Cod sy'n berthnasol iddynt; fodd bynnag, disgwylir iddynt gyfiawnhau'r rhesymau dros eu dewisiadau.

   Atgoffir sefydliadau fod mabwysiadu Cod y CUC (gan addasu egwyddorion y Cod yn ôl yr angen i gymeriad pob sefydliad) yn ffactor pwysig er mwyn galluogi Medr i ddibynnu ar drefniadau hunanreoleiddio o fewn sefydliadau, gan leihau'r baich atebolrwydd yn sgil hynny.

   Rhaid i'r datganiadau ariannol gynnwys datganiad penodol i gadarnhau bod y Sefydliad wedi cydymffurfio â holl egwyddorion y Cod neu, lle bo eithriadau, i esbonio sut yr ymdrinnir â'r rhain, gan gynnwys llinellau amser.

2. Mewn perthynas â llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a systemau rheoli, dylai sefydliadau gyflwyno'r wybodaeth hon gan ddefnyddio'r fformat y cytunwyd arno ar gyfer y templed adroddiad llywodraethu blynyddol a grëwyd yn dilyn yr Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Prifysgolion yng Nghymru.
   a. Mae'n ofynnol i sefydliadau sicrhau eu bod yn cadw at arferion llywodraethu da. Dylai'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol gynnwys:
      i. enwau ymddiriedolwyr sydd wedi gwasanaethu ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ariannol i gydymffurfio â'r FEHE SORP;
      ii. adran ar y camau sy'n cael eu cymryd gan y sefydliad i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Siarter Lywodraethu a'r Ymrwymiad i Weithredu;
      iii. mesurau ar waith ar gyfer sefydlu, datblygu a gwella effeithiolrwydd
   b. Mae'n ofynnol i sefydliadau sicrhau eu bod yn cynnal system reoli fewnol gadarn. Dylai'r Datganiad Rheolaeth Fewnol gynnwys:
      i. Datganiad Rheolaethau Mewnol
      ii. prif risgiau ac ansicrwydd
      iii. camau lliniaru (gan gynnwys polisïau allweddol fel atal llwgrwobrwyo).
   c. Rhaid cymhwyso'r egwyddorion allweddol canlynol ar gyfer rheoli risg effeithiol i sicrhau system gadarn o reolaethau mewnol:

      Rheoli risg yn effeithiol:
      i. yn trafod pob risg - llywodraethu, rheoli, ansawdd, enw da ac ariannol. Fodd bynnag, mae'n canolbwyntio ar y risgiau allweddol pwysicaf;
      ii. yn creu portffolio cytbwys o amlygiad i risg;

iii. yn seiliedig ar ddatganiad clir o bolisi ac ymagwedd;

iv. angen ei monitro a'i hadolygu'n rheolaidd, gan arwaith at weithredu lle bo'n briodol;

v. rhaid iddi fod wedi'i rheoli gan unigolyn dynodedig a chynnwys ymrwymiad amlwg llywodraethwyr, academyddion a swyddogion; ac

vi. wedi'i hintegreiddio i brosesau busnes arferol a'i halinio ag amcanion strategol y sefydliad.

d. Mae'n ofynnol i sefydliadau adolygu effeithiolrwydd eu system rheolaeth fewnol bob blwyddyn o leiaf.

e. Mae'n ofynnol i sefydliadau gynnwys datganiad ar reolaeth fewnol (llywodraethu corfforaethol) yn eu datganiadau ariannol. Wrth lunio datganiadau datgelu, dylai sefydliadau gyfeirio at ganllawiau arfer da, gan gynnwys unrhyw ganllawiau perthnasol gan Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain (BUFDG). Cydnabyddir y gellid bod angen addasu'r canllawiau roi adlewyrchiad cywirach o'r gwahanol strwythurau a systemau mewnol sydd ar waith ym mhob sefydliad unigol. Fel isafswm, dylai'r datgeliadau hyn gynnwys esboniad o'r modd y cafodd yr egwyddorion llywodraethu corfforaethol bras a ganlyn eu cymhwyso i sicrhau:

i. y dylai nodi a rheoli risg fod yn broses barhaus sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion y sefydliad;

ii. y dylai'r ymagwedd at reolaeth fewnol fod yn seiliedig ar risg, gan gynnwys gwerthusiad o'r tebygolrwydd y caiff risgiau eu gwireddu, ac effaith hynny;

iii. bod yn rhaid i weithdrefnau adolygu drafod risg busnes, risg weithredol a risg cydymffurfio yn ogystal â risg ariannol;

iv. y dylai asesiad risg a rheolaeth fewnol fod yn rhan annatod o weithrediadau parhaus;

v. y dylai'r corff llywodraethu neu'r pwyllgor perthnasol dderbyn adroddiadau rheolaidd yn ystod y flwyddyn ar reolaeth fewnol a risg;

vi. y dylai'r corff llywodraethu adolygu a derbyn adroddiadau ar brif ganlyniadau nodi a gwerthuso risgiau, ac adolygiad rheolwyr o effeithiolrwydd y trefniadau;

vii. y dylai'r corff llywodraethu gydnabod ei fod yn gyfrifol am sicrhau bod system reolaeth gadarn yn cael ei chynnal, a'i fod wedi adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hyn; a

viii. lle bo'n briodol, y dylid nodi manylion y camau a gymerwyd neu a gynigiwyd i ymdrin â materion rheolaeth fewnol sylweddol.

**Materion rheolaeth fewnol sylweddol**

3. Rhaid i'r datganiad rheolaeth fewnol nodi unrhyw wendidau neu fethiannau sylweddol o ran rheolaeth fewnol sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn ariannol, neu ar ôl diwedd y flwyddyn ond cyn llofnodi'r datganiadau ariannol. Lle bo'n briodol, dylid nodi gwybodaeth am gamau a gymerwyd neu a gynigiwyd i ymdrin â gwendid neu fethiant rheolaeth fewnol sylweddol.

4. Lle bo'n briodol, dylai'r corff llywodraethu, yn y datganiad o reolaeth fewnol, fanylu ar y camau a gymerwyd neu a gynigiwyd i ymdrin â materion rheolaeth fewnol sylweddol. Mae hyn er mwyn rhoi sicrwydd bod materion rheolaeth fewnol sylweddol yn cael eu datrys.

5. Er nad yw'n bosibl rhoi diffiniad sy'n gweddu i bob cyd-destun, oherwydd gallai arwyddocâd materion newid yn dibynnu ar yr amgylchiadau, ond dylid ystyried y canlynol fel arwyddion o wendid neu fethiant sylweddol o ran rheolaeth fewnol:
    a. A yw'n atal neu'n amharu'n ddifrifol ar y gallu i gyflawni un o dargedau neu amcanion strategol y sefydliad?
    b. A yw'n golygu bod angen ceisio cyllid ychwanegol fel bo modd ei ddatrys, neu bod angen gwyro adnoddau sylweddol o rannau eraill o'r sefydliad?
    c. A yw'n arwain at effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol?
    d. A yw'r pwyllgor archwilio yn cynghori ei fod yn sylweddol yn y cyd-destun hwn?
    e. A yw'r pennaeth archwilio mewnol yn adrodd arno fel mater sylweddol i'r diben hwnnw yn ei f/barn flynyddol?
    f. A yw'r archwilydd allanol yn ei ystyried yn sylweddol (e.e. a yw'n argymhelliad uchel ei flaenoriaeth neu'n amod yn gysylltiedig â'r farn)?
    g. A yw'r mater neu ei effaith yn denu diddordeb sylweddol o du'r cyhoedd, neu a yw wedi achosi niwed difrifol i enw da'r sefydliad ac/neu'r sector?
    h. A yw'r mater, neu a ddylai fod wedi cael ei adrodd, i Medr fel methiant neu fethiant tebygol i gydymffurfio â'r Cod Rheoli Ariannol[3] (Cylchlythyr CCAUC W17/16HE), y Telerau ac Amodau Cyllido, neu fel digwyddiad niweidiol perthnasol neu wendid difrifol fel sy'n ofynnol o dan Delerau ac Amodau Cyllido blynyddol sefydliad â Medr? Mae hyn yn cynnwys yr angen i ystyried a ddylid adrodd, fel gwendid rheolaeth fewnol difrifol, unrhyw ddigwyddiad difrifol sy'n ymwneud â'r ddyletswydd Atal sy'n gysylltiedig â'r sefydliad. Yn Atodiad D fframwaith monitro Dyletswydd Atal Medr (Cylchlythyr CCAUC W19/25HE) nodir y broses ofynnol ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau difrifol ac adroddiadau trydydd parti yn gysylltiedig â'r ddyletswydd Atal.

6. Mae'n ofynnol i bob sefydliad wneud datganiad datgeliad llawn ar lywodraethu corfforaethol ar gyfer y cyfnod 1 Awst i 31 Gorffennaf ym mhob blwyddyn ariannol, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol archwiliedig.

7. Gallai archwilwyr allanol ystyried a ddylid adrodd drwy eithriad yn adran barn eu hadroddiad archwilio. Gallai hyn fod yn briodol pe bai gan yr archwilwyr, er enghraifft, sail i gredu nad oedd y datganiad yn adlewyrchu eu dealltwriaeth o'r broses a gynhaliwyd. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau byddai adrodd drwy eithriad yn arwain at baragraff 'mater arall' ac ni fyddai'n creu amodau i'r farn archwilio.

Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eraill gallai greu amodau i'r farn honno, gan y byddai'r sefydliad, drwy beidio â chydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon, yn torri'r Cod Rheoli Ariannol (Cylchlythyr CCAUC W17/16HE). Gallai hyn fod yn wir pe bai datganiad ar lywodraethu corfforaethol heb ei gynnwys, er enghraifft. Ar ben hynny, gellid creu amod

[3] O fis Awst 2026 bydd hwn yn cael ei ddisodli gan fframwaith rheoleiddio Medr

pe bai gwendidau o ran rheolaeth fewnol a threfniadau rheoli risg yn golygu nad oedd yr archwilydd yn gallu barnu a oedd y datganiadau ariannol yn wir ac yn deg.

## Atodiad D- Canllawiau pellach ar gyfrifo datgeliad cyflog pennaeth sefydliad ac uwch swyddogion

1. ‘Mae 'Tâl' yn golygu tâl a delir i neu a dderbynnir gan unrhyw berson am:
    a. Wasanaethau i'r sefydliad; a
    b. Gwasanaethau fel cyfarwyddwr neu swyddog unrhyw is-gorff i'r sefydliad.

2. I'r diben hwn, mae'r 'tâl' a delir neu y gellir sy'n dderbyniadwy gan gyflogai yn cynnwys ei gyflog arferol, a:
    a. Ffioedd. Dylid cynnwys taliadau allanol yn y tâl a ddatgelir. Fel arfer, bydd taliadau a dderbynnir gan y GIG yn gysylltiedig â rheoli materion y brifysgol neu'r coleg, a dylid felly eu cynnwys fel taliad allanol. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd achosion yn codi lle ceir breindaliadau neu daliadau eraill yr ystyrir eu bod y tu hwnt i faterion y sefydliad;
    b. Bonysau (ond nid manylion y bonysau a enillwyd);
    c. Unrhyw lwfans treuliau (i'r graddau y maent yn denu treth incwm y DU);
    d. Gwerth ariannol amcangyfrifedig unrhyw fuddion a dderbynnir heblaw mewn arian parod (yn enwedig opsiynau cyfranddaliadau, ceir cwmni, benthyciadau â chymhorthdal [gan gynnwys cymorthdaliadau morgais] a llety â chymhorthdal). Yr arfer masnachol gorau yw dehongli gwerth ariannol buddion mewn nwyddau drwy gyfeirio at werth marchnad y cyfleuster a ddarperir. Os nad yw'n ymarferol defnyddio gwerthoedd y farchnad, dylid defnyddio gwerthoedd trethadwy;
    e. Dyma ganllawiau ar sut i ymdrin â cheir a llety â chymhorthdal:

       Ceir

       Os bydd sefydliad yn darparu car ar brydles, gellid cyfrifo gwerth y farchnad drwy gyfeirio at y taliadau prydles a'r costau cynnal ychwanegol a ysgwyddwyd gan y sefydliad. Os yw'r sefydliad yn prynu car ar gyfer, er enghraifft, pennaeth y sefydliad, gellid cyfrifo'r swm a ddatgelir drwy gyfeirio at gostau cynnal blynyddol gan gynnwys dibrisiant a chostau llog cysylltiedig. Gall hyn olygu gwahaniaethu rhwng milltiroedd preifat a busnes, a gellid bod angen i bennaeth y sefydliad gadw cofnod o filltiroedd preifat a milltiroedd y sefydliad.

       Llety

       Llety â chymhorthdal - lle mae'r sefydliad yn berchen ar yr eiddo, y budd a geir gan bennaeth y sefydliad yw'r gwahaniaeth rhwng y rhent a delir (os o gwbl) a'r costau rhedeg ychwanegol a delir gan y sefydliad a'r rhent marchnad amcangyfrifedig am yr eiddo hwnnw y byddai'r sefydliad yn ei dderbyn pe bai'n prydlesu'r eiddo ar sail fasnachol. Os yw'r sefydliad yn prydlesu'r eiddo, gellid asesu'r budd fel y gwahaniaeth rhwng y rhent a threuliau eraill a delir gan y sefydliad a'r hyn a delir gan bennaeth y sefydliad. Bydd angen dyrannu defnydd preifat a sefydliadol o'r llety ar sail deg a chyson, a dylai pennaeth y sefydliad gadw cofnod o ddefnydd sefydliadol er mwyn helpu i gyfrifo dosraniad teg.

Buddion trethadwy – dylai sefydliadau ddefnyddio’r symiau a ddatganwyd i ddibenion P11D neu P60 i gyfrifo'r ffigur hwn, y bydd angen ei addasu i adlewyrchu’r gwerth ar gyfer y flwyddyn academaidd yn hytrach na’r flwyddyn dreth.

Buddion di-dreth – dylai sefydliadau allu priodoli cost i rent a gorbenion a delir gan y sefydliad. Dylai'r sefydliad hefyd wybod pa gyfran o'r flwyddyn y caiff yr eiddo ei ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau swyddogol (gan gynnwys ciniawau neu dderbyniadau ffurfiol ar gyfer busnes y sefydliad, ymhlith digwyddiadau eraill) a'r hyn sy'n gyfystyr â defnydd personol (lle nad oes digwyddiadau swyddogol ar gyfer y sefydliad). Dylai sefydliadau rannu'r costau'n gymesur yn unol â hynny er mwyn sicrhau nad yw'r defnydd swyddogol o eiddo wedi'i gynnwys fel budd.

Lle bo eiddo ym mherchnogaeth lawn y sefydliad, gall y costau fod yn fach iawn, ond gallant ddal i adlewyrchu budd sylweddol i bennaeth y sefydliad. Mewn achosion o'r fath, dylai sefydliadau ddatgelu cost y cyfle i'r sefydliad o beidio â gallu gosod yr eiddo yn fasnachol. Dylid cyfrifo'r gost hon yn gymesur i gael gwared ar ddefnydd swyddogol fel y nodir uchod.

Rhowch ddisgrifiad byr o'r trefniant llety.

3. Dylai cyfrifiad tâl pennaeth y sefydliad, wedi'i fynegi fel cymhareb o gyflog sylfaenol a chyfanswm cyflog y staff, gynnwys y canlynol:

    i. Os yw pennaeth y sefydliad wedi bod yn y swydd am ran o'r flwyddyn yn unig, dylid defnyddio swm cyfwerth ag amser llawn blwyddyn lawn ar gyfer y cymarebau, a chyfleu cymhareb cyflog ar wahân ar gyfer pob pennaeth sefydliad sydd wedi bod yn y swydd yn ystod y flwyddyn;

    ii. Dylai cyfrifiadau cyflog canolrifol staff gynnwys yr holl staff ar sail cyfwerth ag amser llawn. Mae hyn yn cynnwys staff academaidd ac anacademaidd, a'r holl staff sydd â chontractau llawn amser, rhan-amser, tymor penodol neu dros dro;

    iii. Dylai cyfrifiadau cyflog sylfaenol a chyfanswm fod yn gyson â diffiniadau a geir yn rhannau eraill o'r cyfarwyddyd cyfrifon hwn. Dylai'r cyfrifiad swydd cyfwerth ag amser llawn gynnwys ystyriaeth o daliadau goramser lle bo'n berthnasol. Dylai buddion mewn nwyddau fod yn seiliedig ar y flwyddyn ariannol;

    iv. Lle bo cyflog yn cael ei ariannu'n rhannol gan gorff arall, fel y GIG, dylid *cynnwys* yr elfen hon wrth gyfrifo, a chyfeirio'n benodol at hynny yn y naratif. Er mwyn gallu cymharu'n well â'r sector yn Lloegr, gall sefydliadau ddewis datgelu'r ffigurau canolrifol gan hepgor rhan-gyllid y GIG neu unrhyw ran-gyllid arall; a

    v. Dylai gweithwyr sydd wedi'u cynnwys wrth gyfrifo'r canolrifau gynnwys yr holl weithwyr y mae'n ofynnol eu cynnwys mewn adroddiadau amser real i CThEF;

4. Er mwyn osgoi amheuaeth, caiff cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr eu heithrio o dâl.

5. Mae iawndal am golli swydd mewn categori gwahanol i 'dâl' cyffredin. Ni ddylid felly ei gynnwys yn nhâl yr unigolyn hwnnw i ddibenion bandio.

# Atodiad E – Byrfoddau

| | |
|---|---|
| Adolygiad Camm | Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Prifysgolion Cymru gan Gillian Camm |
| BUFDG | Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain |
| Cod y CUC | Cod Llywodraethu Addysg Uwch y CUC |
| CrhA | Y Cod Rheoli Ariannol (CCAUC) |
| CUC | Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgol |
| FEHE SORP | Datganiad o Arferion a Argymhellir: Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019 |
| FRS 102 | Safon Adrodd Ariannol 102 |
| FSSG | Grŵp Strategaeth Cynaliadwyedd Ariannol |
| HESA | Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch |
| Siarter Lywodraethu | Siarter Llywodraethu ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru |

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**